# Minutes

## Cyngor

Date: Dydd Mawrth, 17 Mai 2022

Time: 5.00 pm

Present: Councillors P Cockeram, A Morris, M Al-Nuaimi, M Evans, M Linton, D Fouweather, W Routley, M Kellaway, T Watkins, C Townsend, R Mogford, K Thomas, D Harvey, J Mudd, K Whitehead, D Davies, M Spencer, S Marshall, J Jordan, L Lacey, P Hourahine, J Hughes, J Clarke, Y Forsey, F Hussain, J Jones, G Horton, A Sterry, M Howells, J Peterson, P Drewett, C Baker-Westhead, S Cocks, R Howells, B Perkins, D Batrouni, M Pimm, P Bright, A Screen, J Reynolds, E Stowell-Corten, T Harvey, A Pimm, S Adan, D Jenkins, C Reeks, J Harris, B Davies and L James

Apologies: Councillors D Mayer and J Cleverly

1. **Datganiadau o ddiddordeb**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar y pwynt hwn ond datganodd yr aelodau fuddiant personol ar yr adegau priodol yn ystod y cyfarfod pan gawsant eu henwebu ar gyfer penodiadau.

2. **Penodiad y Llywydd**

Agorodd y Prif Weithredwr y cyfarfod yn ffurfiol gan wahodd enwebiadau ar gyfer penodi'r aelod llywyddol.

Enwebodd y Cynghorydd Mudd y Cynghorydd Cockeram fel aelod llywyddol ac eiliwyd hyn.

Datganodd y Cynghorydd Cockeram ddatganiad o fuddiant ar y pwynt hwn.

Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill. Rhoddwyd y cynnig i bleidlais a chafodd ei dderbyn.

**Penderfynwyd:**
Bod y Cynghorydd Cockeram yn cael ei benodi yn Aelod Llywyddol y Cyngor.

***Yna cymerodd y Cynghorydd Cockeram y gadair am weddill y cyfarfod.***

3. **Penodi’r Dirprwy Lywydd**

Gwahoddodd yr aelod llywyddol enwebiadau ar gyfer penodi’r dirprwy aelod llywyddol.

Enwebodd y Cynghorydd Mudd y Cynghorydd Trevor Watkins fel dirprwy aelod llywyddol ac eiliwyd hyn.
Datganodd y Cynghorydd Watkins ddatganiad o fuddiant ar y pwynt hwn.

Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill. Rhoddwyd y cynnig i bleidlais a chafodd ei dderbyn.

**Penderfynwyd:**
Bod y Cynghorydd Watkins yn cael ei benodi yn Ddirprwy Aelod Llywyddol y Cyngor.

4. **Penodiad i Arweinydd y Cyngor**

Gwahoddodd yr aelod llywyddol aelod o'r blaid gyda'r mwyafrif o aelodau i wneud cynnig i benodi arweinydd y Cyngor.

Datganodd y Cynghorydd Mudd ddatganiad o fuddiant ar y pwynt hwn.

Cynigiwyd ac eiliwyd gan y Cynghorydd Evans y dylid penodi'r Cynghorydd Mudd yn arweinydd y Cyngor.

**Penderfynwyd:**

Bod y Cynghorydd Jane Mudd yn cael ei phenodi yn arweinydd y Cyngor.

Cyhoeddodd yr arweinydd, ar ôl ei hethol, yr aelodau Cabinet:

| **Aelod Cabinet** | **Penodwyd** |
|---|---|
| Twf Economaidd a Buddsoddiad Strategol | Y Cynghorydd Jane Mudd |
| Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar a Dirprwy Arweinydd | Y Cynghorydd Deb Davies |
| Llesiant Cymunedol | Y Cynghorydd Deb Harvey |
| Cynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai (a Rheolwr Busnes) | Y Cynghorydd James Clarke |
| Gwasanaethau Cymdeithasol (rhannu swydd) | Y Cynghorydd Jason Hughes / Y Cynghorydd Stephen Marshall |
| Trawsnewid Sefydliadol | Y Cynghorydd Dimitri Batrouni |
| Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth | Y Cynghorydd Yvonne Forsey |
| Seilwaith ac Asedau (ac eiriolwr LHDCT+) | Y Cynghorydd Laura Lacey |

Rheolwr Busnes y Cyngor – Y Cynghorydd James Clarke
Prif Chwip y Grŵp – Y Cynghorydd Emma Corten

Yna cyhoeddodd y Cynghorydd Evans benodiadau'r cabinet cysgodol.

**Llefarwyr yr wrthblaid:**

| **Swydd** | **Penodwyd** |
|---|---|
| Twf Economaidd a Buddsoddiad Strategol | Y Cynghorydd Matthew Evans |
| Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar a Dirprwy Arweinydd | Y Cynghorydd William Routley |
| Llesiant Cymunedol | Y Cynghorydd Chris Reeks |
| Cynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai | Y Cynghorydd David Fouweather |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Y Cynghorydd David Fouweather |
| Trawsnewid Sefydliadol | Y Cynghorydd John Jones |
| Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth | Y Cynghorydd Ray Mogford |
| Seilwaith ac Asedau | Y Cynghorydd Ray Mogford |

Ar y pwynt hwn, manteisiodd yr arweinydd ar y cyfle i gyhoeddi aelodau newydd y Grŵp Llafur, gan gynnwys aelod gwyrdd cyntaf erioed Casnewydd, y Cynghorydd Lauren James o’r Blaid Werdd.

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Evans ei Aelod Ceidwadol newydd i'r Cyngor.

Cyflwynodd y Cynghorydd Allan Morris ei gydweithwyr yn Ward Llyswyry i'r Cyngor.

5. **Penodi Cadeiryddion Pwyllgorau**

Yn dilyn enwebiadau gan arweinwyr eu pleidiau, ac ar ôl i’r enwebiadau gael eu heilio'n briodol, **penderfynwyd** bod y Cyngor yn cytuno ar benodi'r canlynol yn gadeiryddion pwyllgorau:

| **Cadeirydd y Pwyllgor** | **Penodwyd** |
|---|---|
| Aelod Llywyddol | Y Cynghorydd Paul Cockeram |
| Y Pwyllgor Cynllunio | Y Cynghorydd Mark Spencer |
| Y Pwyllgor Trwyddedu | Y Cynghorydd Kate Thomas |
| Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Y Cynghorydd David Fouweather |
| Y Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu | Y Cynghorydd Phil Hourahine |
| Y Pwyllgor Archwilio Perfformiad – Partneriaethau | Y Cynghorydd David Mayer |
| Y Pwyllgor Craffu Perfformiad – Pobl | Y Cynghorydd William Routley |
| Y Pwyllgor Archwilio Perfformiad – Lle a Chorfforaethol | Y Cynghorydd Janet Cleverly |

*(Datganodd yr unigolion enwebedig a restrir uchod ddatganiad o fuddiant mewn perthynas â'r eitem hon ac ni wnaethant bleidleisio ar eu penodiadau penodol.)*

6. **Penodiadau i Bwyllgorau**

Gweithredodd y Cyngor y penodiadau i bwyllgorau gan y grwpiau gwleidyddol.

Cytunodd pob arweinydd grŵp i drosglwyddo enwau'r aelodau a benodwyd i'r pwyllgorau i'r swyddog priodol i'w cofnodi yn y cofnodion.

Cadarnhawyd y dyraniad canlynol o seddau'r pwyllgorau:

| **Y Pwyllgor Cynllunio** | |
|---|---|
| Llafur (Cadeirydd) | Y Cynghorydd Mark Spencer |
| Llafur (Dirprwy Gadeirydd) | Y Cynghorydd Malcolm Linton |
| Llafur | Y Cynghorydd Tim Harvey |
| Llafur | Y Cynghorydd John Reynolds |
| Llafur | Y Cynghorydd Deb Jenkins |
| Llafur | Y Cynghorydd Trevor Watkins |
| Llafur | Y Cynghorydd Bev Perkins |
| Ceidwadwyr | Y Cynghorydd John Jones |
| Ceidwadwyr | Y Cynghorydd Ray Mogford |
| Plaid Annibynnol Casnewydd | Y Cynghorydd Jason Jordan |
| Grŵp Annibynnol Llyswyry | Y Cynghorydd Mark Howells |

| **Y Pwyllgor Trwyddedu** | |
|---|---|
| Llafur (Cadeirydd) | Y Cynghorydd Kate Thomas |
| Llafur | Y Cynghorydd David Mayer |
| Llafur | Y Cynghorydd Rhian Howells |
| Llafur | Y Cynghorydd Alex Pimm |
| Llafur | Y Cynghorydd Farzina Hussain |
| Llafur | Y Cynghorydd Claire Baker-Westhead |
| Llafur | Y Cynghorydd Saeed Adan |

| | |
|---|---|
| Ceidwadwyr | Y Cynghorydd David Fouweather |
| Ceidwadwyr | Y Cynghorydd Martyn Kellaway |
| Plaid Annibynnol Casnewydd | Y Cynghorydd Janet Cleverly |
| Grŵp Annibynnol Llyswyry | Y Cynghorydd Allan Morris |

| **Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** | |
|---|---|
| Llafur | Y Cynghorydd Gavin Horton |
| Llafur | Y Cynghorydd John Harris |
| Llafur | Y Cynghorydd Steve Cocks |
| Ceidwadwyr | Y Cynghorydd Ray Mogford |
| Plaid Annibynnol Casnewydd | Y Cynghorydd Jason Jordan |
| Aelodau Annibynnol | **Wedi gwrthod |
| Aelodau Lleyg* | Gareth Chapman<br>Don Reed<br>Norma Barry |

*** Cadeirydd i'w benodi gan y pwyllgor**

| **Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** | |
|---|---|
| Ceidwadwyr (Cadeirydd) | Y Cynghorydd David Fouweather |
| Llafur | Y Cynghorydd Emma Corten |
| Llafur | Y Cynghorydd Mark Spencer |
| Llafur | Y Cynghorydd Alex Pimm |
| Llafur | Y Cynghorydd Phil Hourahine |
| Llafur | Y Cynghorydd Trevor Watkins |
| Llafur | Y Cynghorydd Kate Thomas |
| Llafur | Y Cynghorydd Tim Harvey |
| Grŵp Annibynnol Llyswyry | Y Cynghorydd Andrew Sterry |

**Y Pwyllgorau Craffu:**

| **Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu** | |
|---|---|
| Llafur (Cadeirydd) | Y Cynghorydd Phil Hourahine |
| Llafur | Y Cynghorydd Miqdad Al-Nuaimi |
| Llafur | Y Cynghorydd Bev Davies |
| Llafur | Y Cynghorydd Gavin Horton |
| Llafur | Y Cynghorydd Paul Bright |
| Llafur | Y Cynghorydd Claire Baker-Westhead |
| Ceidwadwyr | Y Cynghorydd Matthew Evans |
| Grŵp Annibynnol Llyswyry | **Wedi gwrthod |
| Y Blaid Werdd | Y Cynghorydd Lauren James |

| **Y Pwyllgor Archwilio Perfformiad – Partneriaethau** | |
|---|---|
| Llafur (Cadeirydd) | Y Cynghorydd David Mayer |
| Llafur | Y Cynghorydd Farzina Hussain |
| Llafur | Y Cynghorydd Matt Pimm |
| Llafur | Y Cynghorydd Pat Drewett |
| Llafur | Y Cynghorydd Allan Screen |
| Llafur | Y Cynghorydd Steve Cocks |
| Llafur | Y Cynghorydd Emma Corten |
| Ceidwadwyr | Y Cynghorydd John Jones |
| Plaid Annibynnol Casnewydd | Y Cynghorydd Kevin Whitehead |

| | |
|---|---|
| Grŵp Annibynnol Llyswyry | Y Cynghorydd Allan Morris |

| **Pwyllgor Craffu Perfformiad – Pobl** | |
|---|---|
| Ceidwadwyr (Cadeirydd) | Y Cynghorydd William Routley |
| Llafur | Y Cynghorydd Miqdad Al-Nuaimi |
| Llafur | Y Cynghorydd Paul Bright |
| Llafur | Y Cynghorydd Matt Pimm |
| Llafur | Y Cynghorydd Deb Jenkins |
| Llafur | Y Cynghorydd Bev Davies |
| Llafur | Y Cynghorydd Allan Screen |
| Llafur | Y Cynghorydd Pat Drewett |
| Plaid Annibynnol Casnewydd | Y Cynghorydd Janet Cleverly |
| Grŵp Annibynnol Llyswyry | **Wedi gwrthod |
| Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Y Cynghorydd Carmel Townsend |

| **Y Pwyllgor Archwilio Perfformiad – Lle a Chorfforaethol** | |
|---|---|
| Annibynwyr Casnewydd (Cadeirydd) | *Y Cynghorydd Janet Cleverly |
| Llafur | Y Cynghorydd Malcolm Linton |
| Llafur | Y Cynghorydd Bev Perkins |
| Llafur | Y Cynghorydd John Reynolds |
| Llafur | Y Cynghorydd John Harris |
| Llafur | Y Cynghorydd Gavin Horton |
| Llafur | Y Cynghorydd Saeed Adan |
| Llafur | Y Cynghorydd Kate Thomas |
| Ceidwadwyr | Y Cynghorydd Chris Reeks |
| Plaid Annibynnol Casnewydd | |
| Grŵp Annibynnol Llyswyry | *Y Cynghorydd Mark Howells |

*Bydd swydd y cadeirydd hwn ar sail cylchdro blynyddol gyda Grŵp Annibynnol Llyswyry, y Cynghorydd Mark Howells.

| **Y Pwyllgor Safonau** | |
|---|---|
| Llafur | Y Cynghorydd Paul Cockeram |
| Llafur | Y Cynghorydd Farzina Hussain |
| Ceidwadwyr | Y Cynghorydd David Fouweather |
| Aelodau Cyfetholedig | Andrew Mitchell (Cadeirydd)<br>Kerry Watkins (Is-Gadeirydd)<br>John Davies (Cynrychiolydd Cyngor Caerdydd)<br>Richard Morgan<br>Gill Nurton<br>Dr Paul Worthington |

| **CYSAG: Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol** | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Deb Davies | Cadeirydd |
| Y Cynghorydd Farzina Hussain | Penodiad Llafur |
| Y Cynghorydd Laura Lacey | Penodiad Llafur |
| Y Cynghorydd Saeed Adan | Penodiad Llafur |
| Y Cynghorydd David Fouweather | Penodiad Ceidwadol |

| **Pwyllgor Penodiadau – Cyfarwyddwr Strategol** | |
|---|---|
| Llafur | Y Cynghorydd Jane Mudd |
| Llafur | Y Cynghorydd Deb Harvey |

| | |
|---|---|
| Llafur | Y Cynghorydd James Clarke |
| Llafur | Y Cynghorydd Pat Drewett |
| Ceidwadwyr | Y Cynghorydd Matthew Evans |
| Annibynwyr Casnewydd | Y Cynghorydd Janet Cleverly |
| Grŵp Annibynnol Llyswyry | Y Cynghorydd M Howells |

-

| **Fforwm Rhianta Corfforaethol** | |
|---|---|
| Llafur (Cadeirydd) | Y Cynghorydd Stephen Marshall |
| Llafur | Y Cynghorydd Tim Harvey |
| Llafur | Y Cynghorydd Claire Baker-Westhead |
| Llafur | Y Cynghorydd Allan Screen |
| Llafur | Y Cynghorydd Paul Bright |
| Llafur | Y Cynghorydd Bev Perkins |
| Llafur | Y Cynghorydd Bev Davies |
| Ceidwadwyr | Y Cynghorydd Chris Reeks |
| Plaid Annibynnol Casnewydd | Y Cynghorydd Janet Cleverly |
| Grŵp Annibynnol Llyswyry | Y Cynghorydd Allan Morris |

** Mae'r lleoedd pwyllgor hynny y mae Grŵp Annibynnol Llyswyry wedi'u gwrthod wedi'u cynnig i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru a'r Blaid Werdd.

-
-
-
-

**Cynrychiolwyr yr AALl**

| **Y Corff Llywodraethu** | **Nifer y Lleoedd Gwag / Ailbenodiadau** | **Enwebiadau a Dderbyniwyd** |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams | 1 | Jason Hughes |
| Ysgol Gynradd Alway | 1 | Rodney Webb |
| Ysgol Gynradd Sant Julian | 1 | Elaine Bryant |
| Ysgol Gynradd Tŷ-du | 1 | Chris Lacey |
| Ysgol Feithrin Casnewydd | 1 | Paul Bright |

**Apeliadau Adnoddau Dynol**

Aelodau i'w penodi i'w defnyddio yn eu tro:
Y Cynghorwyr

**Fforwm Partneriaeth Gweithwyr**

CM
Pob aelod arall trwy wahoddiad y cadeirydd ar sail ad hoc

**Eiriolwyr:**

-
1. **Eiriolwr dros Bobl Hŷn:** Y Cynghorydd Kate Thomas
2. **Eiriolwr dros Bobl Anabl, Agored i Niwed:** Y Cynghorydd Deb Jenkins
3. **Eiriolwr dros Ofalwyr:** Y Cynghorydd Paul Cockeram
4. **Eiriolwr yn erbyn Tlodi:** Y Cynghorydd Phil Hourahine
5. **Eiriolwr dros y Lluoedd Arfog:** Y Cynghorydd Mark Spencer

6. **Eiriolwr Bioamrywiaeth:** Y Cynghorydd Emma Corten
7. **Eiriolwr BAME:** Y Cynghorydd Farzina Hussain
8. **Eiriolwr LHDT:** Y Cynghorydd Laura Lacey
9. **Eiriolwr dros y Gymraeg:** Y Cynghorydd John Harris
10. **Eiriolwr Teithio Llesol:** Y Cynghorydd David Mayer

7. **Cynllun Lwfansau Aelodau 2022/2023**

Cyflwynodd yr arweinydd yr adroddiad i'r Cyngor. Roedd yn ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu a chyhoeddi cynllun lwfansau i aelodau ar gyfer y flwyddyn ddinesig gyfredol, yn seiliedig ar y cyflogau a ragnodwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Sefydlwyd corff statudol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol gan Lywodraeth Cymru i bennu lefel briodol y taliad a delir i aelodau etholedig yng Nghymru.

Cyhoeddodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ei adroddiad blynyddol ym mis Chwefror eleni, ond ni ddaeth yr argymhellion ar gyfer 22/23 i rym tan ar ôl yr etholiadau lleol. Felly, roedd angen i'r Cyngor fabwysiadu'r argymhellion hynny yn ffurfiol a chymeradwyo'r lwfansau ar gyfer 22/23.

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu y dylai cyflogau blynyddol sylfaenol aelodau etholedig ar gyfer 22/23 gael eu hailseilio ar £16,800 i gymryd i ystyriaeth y cynnydd mewn chwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf ac i sicrhau bod taliad yn gysylltiedig â lefelau cyflog cyfartalog. Cynyddwyd uwch-gyflogau hefyd a'u hailosod yn unol â chymaryddion perthnasol. Nid oedd unrhyw ddisgresiwn ynghylch swm y cyflogau gan eu bod yn cael eu pennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Byddai’r codiadau mewn cyflogau sylfaenol yn dod i rym o 9 Mai 2022. Byddai’r taliad ychwanegol ar gyfer uwch-gyflogau yn daladwy o heddiw ymlaen, yn dilyn y penodiadau cynharach. Byddai enwau deiliaid yr uwch-gyflogau perthnasol yn cael eu hychwanegu at y rhestr cyn ei chyhoeddi.

Cynigiodd yr arweinydd yn ffurfiol i fabwysiadu'r Cynllun Lwfansau ar gyfer 22/23. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Evans.

**Penderfynwyd:**
Bod y Cyngor yn cymeradwyo a mabwysiadu Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau 22/23 fel y nodir yn Atodiad 1 i Becyn yr Agenda.

8. **Cynllun Dirprwyo Swyddogion**

Cyflwynodd yr arweinydd yr adroddiad i'r Cyngor. Roedd cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys cynllun dirprwyo helaeth i'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Strategol a Phenaethiaid Gwasanaethau, a oedd wedi eu hawdurdodi i allu gwneud penderfyniadau gweithredol a chyflawni swyddogaethau statudol penodol ar ran y Cyngor.

Roedd y Cynllun Dirprwyo Swyddogion wedi'i ddiweddaru o bryd i'w gilydd, i adlewyrchu newidiadau yn y strwythur o ran uwch-reolwyr ac adlewyrchu ailddyrannu rolau a chyfrifoldebau. Cafodd ei ddiweddaru ddiwethaf ym mis Hydref 2020, yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Ers hynny, cytunodd y Cyngor ar strwythur uwch-reolwyr newydd gyda Chyfarwyddwyr Strategol a Phenaethiaid Gwasanaethau newydd. Roedd yr ailstrwythuro hwnnw mewn perthynas ag uwch-reolwyr bellach wedi'i roi ar waith ac roedd newidiadau sylweddol o ran rolau a chyfrifoldebau ac ad-drefnu gwasanaethau. Roedd angen felly newid y cynllun dirprwyo swyddogion i adlewyrchu'r newidiadau rheoli hyn. Roedd y cynllun dirprwyo diwygiedig ynghlwm wrth yr adroddiad ac, wedi iddo gael ei fabwysiadu, byddai'n cael ei gynnwys yn Atodiad 3 i'r cyfansoddiad newydd.

Nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynllun dirprwyo blaenorol ond trosglwyddwyd y cyfrifoldeb, lle bo'n briodol, i'r Pennaeth Gwasanaeth newydd, a gwnaed mân newidiadau i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth a theitlau swyddi a oedd wedi'u diweddaru.

Cynigiodd yr arweinydd fod y Cyngor yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu'r cynllun dirprwyo diwygiedig ar gyfer swyddogion. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Evans.

**Penderfynwyd:**
Bod y Cyngor yn cytuno i'r diwygiadau arfaethedig ar gyfer y Cynllun Dirprwyo ar gyfer Swyddogion a'u mabwysiadu o dan Ran 3 o Atodiad 3 i Gyfansoddiad y Cyngor fel y nodir ym Mhecyn Agenda'r Cyngor.

9. **Rheolau Sefydlog y Cyngor a Threfniadau ar gyfer Cyfarfodydd Aml-leoliad**

Cyflwynodd yr arweinydd yr adroddiad i'r Cyngor. Mae adrannau 46 a 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd statudol ar holl awdurdodau lleol Cymru i wneud trefniadau ar gyfer cyfarfodydd "hybrid" neu aml-leoliad ac i ddarlledu'r cyfarfodydd hyn, gan gyhoeddi'r trefniadau ar gyfer hyn.

Roedd cydweithwyr yn ymwybodol bod y Cyngor wedi cynnal cyfarfodydd o bell drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud oherwydd COVID-19 a dyma'r tro cyntaf i'r rhan fwyaf o gynghorwyr allu cyfarfod wyneb yn wyneb yn y siambr hon ers dwy flynedd. Hyd yn hyn, roedd cyfarfodydd o bell yn fater o anghenraid ond, o hyn ymlaen, mater o ddewis personol fyddai cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor o bell.

Roedd dileu holl gyfyngiadau COVID-19 yn golygu y gallai'r Cyngor gyflwyno trefniadau ar gyfer cyfarfodydd hybrid neu aml-leoliad, gan roi'r dewis i aelodau etholedig a chyfranogwyr eraill ynghylch ymuno o bell neu fynychu wyneb yn wyneb. Hefyd, fel rhan o Amcanion Strategol y Cyngor ar gyfer Adferiad wedi COVID-19, cytunwyd ar fodel gweithio newydd ar gyfer aelodau etholedig a staff y Cyngor sy'n seiliedig ar drefniadau gweithio hyblyg. Rhan annatod o'r model gweithio newydd hwn oedd y defnydd o dechnoleg a'r rhyddid i gymryd rhan o bell yng nghyfarfodydd y Cyngor. Byddai'r trefniadau hyn yn helpu i wella amrywiaeth a thryloywder o fewn llywodraeth leol.

Roedd y protocol sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn nodi sut roedd y Cyngor yn bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan adrannau 46 a 47 o Ddeddf 2021 mewn perthynas â darlledu cyfarfodydd, a galw cyfarfodydd a oedd yn cynnwys cyfranogwyr mewn lleoliadau lluosog. Byddai'r rheolau a'r gweithdrefnau a nodir yn Adran 3 o'r ddogfen yn cynnwys y gofynion craidd gorfodol ar gyfer cydymffurfio â'r fframwaith deddfwriaethol. O'r herwydd, byddent yn rhan o gyfansoddiad cyhoeddedig y Cyngor ac roedd angen eu darllen ar y cyd â Rheolau Sefydlog y Cyngor sy'n ymwneud â chynnal cyfarfodydd.

Roedd Adran 4 yn nodi polisi cyfarfodydd aml-leoliad ehangach y Cyngor, a oedd yn adlewyrchu'r egwyddorion deddfwriaethol cyffredinol yn Adran 3, ac yn nodi arferion a gweithdrefnau manylach i sicrhau bod cyfarfodydd aml-leoliad yn gweithio'n effeithlon, yn effeithiol ac mewn modd atebol. Byddai'r polisi anstatudol hwn yn destun trosolwg ac adolygiad cyfnodol gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a dylid ei ystyried ar y cyd â Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd ehangach y Cyngor.

Diweddarwyd a diwygiwyd Rheolau Sefydlog y Cyngor i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth a'r trefniadau newydd ar gyfer penodi aelod llywyddol i gadeirio cyfarfodydd y Cyngor, yn lle'r maer.

Roedd y trefniadau a pholisi arfaethedig ar gyfer cynnal cyfarfodydd aml-leoliad ynghlwm wrth yr adroddiad hwn, ynghyd â'r Rheolau Sefydlog wedi'u diweddaru. Unwaith y cânt eu cymeradwyo a'u mabwysiadu, byddent wedyn yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r cyfansoddiad diwygiedig.

Cynigiodd yr arweinydd fod y Rheolau Sefydlog a threfniadau diwygiedig ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad yn cael eu cymeradwyo a'u mabwysiadu. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Evans.

**Penderfynwyd:**
Bod y Cyngor yn cymeradwyo a mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog a threfniadau diwygiedig ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad.

10. **Strategaeth Cyfranogiad a Chynllun Deisebau**

Cyflwynodd yr arweinydd yr adroddiad i'r Cyngor. Adroddiad y Cyngor oedd y cam olaf yng ngwaith y Cyngor o ddatblygu Strategaeth Cyfranogiad i gydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu ac ymgynghori ar Strategaeth Cyfranogiad sy'n rhoi cymorth i breswylwyr gymryd mwy o ran yn y broses o wneud penderfyniadau ac annog mwy o amrywiaeth o ran y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Roedd y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y prif gynghorau i annog dinasyddion lleol i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, ac i baratoi a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut y mae'n bwriadu gwneud hyn.

Fel rhan o'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd, roedd hefyd yn ofynnol i'r Cyngor lunio a chyhoeddi Cynllun Deisebau, yn nodi sut y gellir cyflwyno deisebau cyhoeddus a sut y bydd y Cyngor yn ymateb.

Roedd y Ddeddf yn annog awdurdodau lleol i fabwysiadu strategaethau sy'n cynnwys trefniadau sy'n addas i'w hamgylchiadau eu hunain ac sydd wedi'u cynllunio o amgylch anghenion y rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

Roedd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu a llunio'r strategaeth er mwyn llunio'r fersiwn derfynol hon.

Roedd ymgynghoriad â thrigolion Casnewydd yn dangos bod gan drigolion ddiddordeb yn y penderfyniadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud ac y byddent yn croesawu cael mwy o lais fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Os caiff ei chymeradwyo gan y Cyngor, byddai'r strategaeth yn cael ei chyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wefan y Cyngor erbyn 31 Mai 2022.

Cynigiodd yr arweinydd fod y Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus a'r Cynllun Deisebau yn cael eu cymeradwyo a'u mabwysiadu yn barod i'w cyhoeddi. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Evans.

**Penderfynwyd:**
Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus a'r Cynllun Deisebau a'u mabwysiadu ac yn cytuno i'w cyhoeddi.

11. **Datganiad Tâl a Gwobrwyo 2022/2023**

Roedd Polisi Tâl a Gwobrwyo'r Cyngor ar gyfer y gweithlu yn adroddiad blynyddol yr oedd angen ei fabwysiadu gan y Cyngor. Roedd y polisi hwn yn nodi'r dulliau mewnol ar gyfer talu swyddogion y Cyngor ac yn darparu unrhyw newidiadau ers iddo gael ei fabwysiadu ddiwethaf. Cytunodd y Cabinet yn eu cyfarfod ym mis Mawrth i argymell bod y polisi yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor.

Cymeradwywyd y polisi ddiwethaf ym mis Ebrill 2021 ac nid oedd unrhyw newidiadau arfaethedig iddo eleni, ac eithrio rhai newidiadau terminoleg y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.

Fodd bynnag, tynnodd yr arweinydd sylw at y datganiad blynyddol o'r bwlch mewn cyflog rhwng y rhywiau, a fyddai hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Roedd yr arweinydd yn falch o adrodd bod y bwlch cyflog cymedrig wedi gostwng am y drydedd flwyddyn yn olynol. Roedd y bwlch yn 3.6% yn 2019 ac 1.9% yn 2020 ac roedd bellach yn 1.5% yn 2021. Ar hyn o bryd, roedd y bwlch cyflog canolrifol yn 2.0% ar gyfer 2021. Roedd bwlch cyflog y Cyngor rhwng y rhywiau yn parhau i gymharu'n ffafriol â chynghorau eraill ar draws Cymru a'r cyfartaledd o 15.4% yn y DU ond byddai ymdrechion yn parhau i ddileu'r bwlch cyflog rhwng dynion a merched a gyflogir gan y Cyngor.

Roedd y Cyngor wedi ymrwymo i gynnal archwiliadau cyflog cyfartal a disgwylir y bydd un yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn galendr hon.

Cynigiodd yr arweinydd fod Datganiad Tâl a Gwobrwyo 22/23 yn cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Evans.

**Penderfynwyd:**
Bod y Cyngor yn cymeradwyo Polisi Tâl a Gwobrwyo 2022/23 a'i fabwysiadu.

12. **Appendix 1 Cabinet Member Portfolios**

ATODIAD 2

Portffolios Aelodau Cabinet Mai 2022/2023

Mae'r arweinydd yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau gweithredol ac mae wedi dirprwyo cyfrifoldeb am gyflawni rhai swyddogaethau gweithredol i'r Cabinet yn ei gyfanrwydd ac i aelodau Cabinet unigol, yn unol â'r cynllun dirprwyo hwn.

Mae'r swyddogaethau gweithredol canlynol wedi'u dirprwyo i aelodau Cabinet unigol mewn perthynas â'r portffolios a ddyrannwyd iddynt gan yr arweinydd, fel y nodir yn y tablau isod.

Os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch p'un a yw mater yn dod o fewn portffolio penodol, bydd yr arweinydd yn gwneud penderfyniad ynghylch pa aelod Cabinet ddylai wneud y penderfyniad gweithredol hwnnw.

Gwybodaeth gyffredinol ar gyfer holl aelodau'r Cabinet:

## Polisïau a Dogfennau Polisi

Mae gan bob aelod Cabinet gyfrifoldeb i benderfynu ar unrhyw bolisi neu ddogfennau polisi sy'n ymwneud â'u portffolios a'u diwygio, yn unol â fframwaith polisi a chyllideb y Cyngor. Nid yw hyn yn cynnwys y polisïau a dogfennau hynny a gedwir ar gyfer gwneud penderfyniadau gan y Cyngor, neu a ddirprwyir i'r Cabinet ar y cyd neu i aelodau neu swyddogion unigol eraill y Cabinet. Mae'r holl faterion gweithredol i'w penderfynu gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn unol â'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Swyddogion.

Bydd dogfennau polisi yn cynnwys y canlynol:
- Strategaethau
- Cynlluniau
- Dogfennau canllaw neu ddogfennau canllaw atodol

- Meini prawf cymhwyster a phatrymau ar gyfer darpariaeth
- Amcanion ar gyfer darparu gwasanaeth o fewn y portffolio

## Cynllunio Gwasanaeth a Pherfformiad y Gwasanaeth

Penderfynu'r cynlluniau gwasanaeth ar gyfer y meysydd gwasanaeth o fewn y portffolio, monitro perfformiad yn erbyn y cynlluniau gwasanaeth, a phenderfynu ar unrhyw gamau gweithredu sy'n codi.

## Dogfennau Ymgynghori

Penderfynu ar yr ymateb i unrhyw ddogfen ymgynghori fawr neu ddogfen arolygu ffurfiol sy'n benodol i'r portffolio neu'r maes gwasanaeth.

## Hysbysiadau Statudol

Penderfynu p’un a ddylid hysbysebu, ymgynghori ar neu gyhoeddi unrhyw hysbysiadau neu orchmynion statudol (i'r graddau nad ydynt wedi'u dirprwyo i swyddogion) a gweithredu ar gynigion a hysbysebir yng ngoleuni unrhyw sylwadau a dderbynnir.

## Amrywiadau i Gyllidebau

Penderfynu ar unrhyw amrywiadau i gyllidebau yn unol â'r Rheoliadau Ariannol a'r cyfansoddiad, gan gynnwys trosglwyddiadau hyd at gyfanswm cyfanredol o £100,000 y flwyddyn neu 10% o’r dadansoddiad o amcanion fel y nodir yn Llyfr y Gyllideb (pa un bynnag yw'r isaf).

## Tendrau

Penderfynu ar restr gymeradwy neu ddethol o ddarpar dendrwyr ar gyfer cyflenwi nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau o fewn y portffolio a phenderfynu p’un a ddylid eithrio contractwyr o restrau cymeradwy neu ddethol.

## Grantiau

Penderfynu, mewn ymgynghoriad â'r arweinydd, p’un a ddylid derbyn grantiau allanol sydd ar gael sydd angen arian cyfatebol, yn amodol ar dderbyn cadarnhad o'r cyllid sydd ar gael i gwrdd ag unrhyw ymrwymiad gan y Cyngor. Mae'n rhaid i hyn gynnwys unrhyw gostau terfynu gweddilliol i'r Cyngor pan ddaw'r cyllid grant i ben.

Cytuno ar feini prawf, terfynau, cymwyseddau a dosbarthiad o fewn cynlluniau ar gyfer cymorth grant mewn perthynas â gwasanaethau o fewn y portffolio a phenderfynu p’un a ddylid hepgor amodau sy'n ymwneud â chymorth grant.

Rhoi grantiau neu ddarparu cymorth i sefydliadau neu unigolion, lle mae swm y grant yn £20,000 neu fwy, ac eithrio’r rhai sy'n destun dirprwyaeth benodol mewn mannau eraill yn y cynllun. Bydd penderfyniadau ar geisiadau grant o lai na £20,000 yn cael eu penderfynu gan Benaethiaid Gwasanaeth yn gweithredu o fewn meini prawf cytunedig.

Penderfynu o dan ba amgylchiadau y gellir hepgor ad-daliad grant.

## Ffioedd a Thaliadau

Penderfynu ar ffioedd a thaliadau am wasanaethau neu'r defnydd o eiddo yn y portffolio a phenderfynu ar unrhyw ddiwygiadau (i'r graddau nad ydynt wedi'u pennu gan y Cabinet fel rhan o broses pennu cyllideb gyffredinol y Cyngor).

Penderfynu ar gymorthdaliadau neu gonsesiynau o fewn unrhyw gynlluniau codi tâl neu gynlluniau eraill.

Penderfynu o dan ba amgylchiadau y gellir hepgor taliadau.

## Adeiladau

Datgan nad oes angen adeiladau neu dir bellach er mwyn bodloni gofynion y gwasanaeth.

Penderfynu, yn amodol ar ganiatâd cynllunio, p'un a ddylid rhoi caniatâd i osod offer telathrebu ar eiddo neu dir a ddelir o fewn y portffolio.

Penderfynu ar unrhyw raglen o foderneiddio neu wella eiddo a ddelir o fewn y portffolio, yn amodol ar ddarpariaeth gyllidebol.

## Ymchwil ac Astudiaethau

Penderfynu p'un a ddylid penodi cymorth allanol ar gyfer ymchwil, astudiaethau neu ymchwiliad, yn amodol ar argaeledd cyllidebol.

## Cerbydau

Penderfynu ar unrhyw raglen adnewyddu cerbydau o fewn y portffolio, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.

## Trefniadau Partneriaeth ac Ymgynghori

Penderfynu p'un a ddylid ymrwymo i unrhyw drefniadau partneriaeth neu gompact anstatudol neu gymryd rhan mewn unrhyw drefniadau fforwm anstatudol, yn amodol ar gydymffurfio â fframwaith polisi a chyllideb y Cyngor.

Penderfynu ar drefniadau ar gyfer ymgynghori a chydgysylltu rheolaidd â phartneriaid, rhanddeiliaid neu bartïon eraill â diddordeb.

## Atal Rheolau Sefydlog

Penderfynu o dan ba amgylchiadau i atal Rheolau Sefydlog neu hepgor Rheolau Sefydlog contractau a Rheoliadau Ariannol a sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael gwybod am y camau a gymerwyd a'r rhesymau am eu cymryd.

## Buddiant Ariannol neu Bersonol / Absenoldeb

Os oes gan aelod Cabinet fuddiant ariannol neu bersonol, dylai ddatgan y buddiant a chyflwyno'r mater i'w benderfynu gan arweinydd y Cabinet neu, yn absenoldeb yr arweinydd, y dirprwy arweinydd neu aelod Cabinet arall y gall yr arweinydd ei benodi.

Pan fo aelod Cabinet yn absennol neu os oes unrhyw reswm arall na all benderfynu ar fater, bydd y mater yn cael ei benderfynu gan arweinydd y Cabinet neu, yn absenoldeb yr arweinydd, gan y dirprwy arweinydd neu aelod Cabinet arall y gall yr arweinydd ei benodi.

---

Dirprwyaethau Penodol i Aelodau Cabinet

**Arweinydd y Cyngor a'r**

Aelod Cabinet dros Dwf Economaidd a Buddsoddiad Strategol

Penderfynu ar unrhyw bolisi neu ddogfennau polisi a'u diwygio mewn perthynas â'r canlynol:

- Pob mater ariannol
- Caffael
- Perfformiad
- Tegwch
- Cynllunio corfforaethol
- Cysylltiadau cyhoeddus a phob cyswllt â'r wasg
- Digwyddiadau maerol a chorfforaethol
- Datblygu aelodau Cabinet
- Prosiectau mawr
- Gwasanaethau Democrataidd a materion cyfansoddiadol
- Cydberthnasau â chyrff cenedlaethol
- Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru
- Rhwydwaith Economaidd Casnewydd
- Porth y Gorllewin
- Dinasoedd Allweddol
- Adfywio
- Datblygu economaidd
- Gwaith a sgiliau
- Diwylliant a threftadaeth
- Twristiaeth
- Cyhoeddusrwydd, marchnata a chyfathrebu

## Dirprwy arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar

Cyffredinol:
- Dirprwyo ar gyfer yr arweinydd fel cadeirydd y Cabinet ac arfer pwerau dirprwyedig mewn perthynas â phortffolio'r arweinydd yn absenoldeb yr arweinydd neu fel arall fel a bennir gan yr arweinydd

Penderfynu ar unrhyw bolisi neu ddogfennau polisi a'u diwygio mewn perthynas â'r canlynol:
- Gwasanaethau addysg, gan gynnwys y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Ysgolion
- Y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys ataliaeth a chynhwysiant
- Arlwyo ysgolion
- Gwasanaethau cerdd
- Cynhwysiant addysg
- Plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion
- Hawliau rhieni
- Strategaethau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEETs)
- Datblygu strategaethau i ddatblygu disgwyliadau a hyfforddiant i helpu pobl ifanc i gael swyddi neu i ddechrau busnes a'i ddatblygu
- Datblygu aelodau

## Aelod Cabinet dros Seilwaith ac Asedau

Penderfynu ar unrhyw bolisi neu ddogfennau polisi a'u diwygio mewn perthynas â'r canlynol:
- Priffyrdd
- Systemau draenio
- Glanhau strydoedd
- Materion traffig
- Trafnidiaeth ranbarthol
- Trafnidiaeth a mynediad i'r ddinas, heb gynnwys Cwmni Bws Trafnidiaeth Casnewydd nac unrhyw ddarparwyr eraill
- Trafnidiaeth integredig
- Diogelwch ar y ffyrdd
- Argyfyngau sifil
- Asedau
- Unrhyw faterion polisi sy'n ymwneud ag eiddo neu berthynas y Cyngor â Norse os yw'n ymwneud ag unrhyw fater eiddo
- Unrhyw gaffaeliadau a gwarediadau tir ac eiddo nad ydynt wedi'u dirprwyo i'r Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid

Er eglurder – bydd yr aelod Cabinet yn penderfynu ar orchmynion traffig sy'n derbyn gwrthwynebiadau neu'n cael eu herio. Y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol fydd yn penderfynu ar orchmynion diwrthwynebiad neu'r rhai sy'n cael eu cefnogi'n llwyr.

## Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai

Penderfynu ar unrhyw bolisi neu ddogfennau polisi a'u diwygio mewn perthynas â'r canlynol:

- Cynllunio strategol
- Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu
- Cynllun Datblygu Lleol – heb ei gadw i'r Cyngor
- Cynllunio Rhanbarthol
- Tai
- Trwyddedu, ac eithrio'r rhai a gadwyd yn ôl i'r Cyngor neu'r Pwyllgor Trwyddedu
- Diogelu'r Cyhoedd
- Diogelwch Cymunedol
- Iechyd yr Amgylchedd
- Safonau Masnach
- Tacsis

## Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth

Penderfynu ar unrhyw bolisi neu ddogfennau polisi a'u diwygio mewn perthynas â'r canlynol:

- Strategaeth Lleihau Carbon
- Cynllun Teithio Cynaliadwy
- Gwaredu gwastraff
- Sbwriel
- Ailgylchu a chynaliadwyedd
- Gwasanaethau gwyrdd
- Mynwentydd a'r Amlosgfa
- Parciau

## Aelod Cabinet dros Lesiant Cymunedol

Penderfynu ar unrhyw bolisi neu ddogfennau polisi a'u diwygio mewn perthynas â'r canlynol:

- Dechrau'n Deg
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Cymunedau yn Gyntaf
- Yr agenda gwrthdlodi
- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol
- Materion gweddilliol yn ymwneud â'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon a Hamdden, Casnewydd FYW, gan gynnwys Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon
- Cronfa'r Eglwys yng Nghymru
- Budd-daliadau Tai
- Budd-daliadau'r dreth gyngor
- Cenedlaethau'r Dyfodol
- Addysg i oedolion
- Gwasanaethau llyfrgell
- Gwasanaethau ieuenctid
- Datblygu chwarae
- Pob mater sy'n ymwneud â chanolfannau cymunedol

## Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (rhannu swydd)

Penderfynu ar unrhyw bolisi neu ddogfennau polisi a'u diwygio mewn perthynas â'r canlynol:

- Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
- Gofal yn y gymuned i bobl hŷn
- Materion strategol y trydydd sector
- Camddefnyddio sylweddau
- Therapi galwedigaethol
- Strategaethau eiddilwch
- Iechyd meddwl
- Anabledd dysgu
- Gwasanaethau preswyl i bobl hŷn
- Gofal cartref
- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- Byw â chymorth
- Cefnogi Pobl
- Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal
- Diogelu
- Cam-drin Domestig
- Amddiffyn plant
- Troseddau ieuenctid
- Cymorth integredig i deuluoedd
- Cymorth mewn argyfwng
- Maethu
- Gwasanaethau i blant anabl

Bydd yr aelod Cabinet hefyd yn penderfynu ar y canlynol:

- Unrhyw gamau i'w cymryd i fodloni safonau gofynnol ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol neu unrhyw safonau gofynnol eraill sy'n ymwneud â Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
- Unrhyw gamau i'w cymryd yn sgil unrhyw adolygiad achos difrifol gan y Pwyllgor Amddiffyn Plant
- Gofynion unrhyw gynllun gofalwyr maeth dan gontract neu gynllun tebyg, a phenderfynu ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw gofalwyr maeth
- Unrhyw gamau sy'n codi o adroddiadau a dderbyniwyd o ganlyniad i ymweliadau â chartrefi preswyl i blant a phobl ifanc
- Taliadau a lwfansau rhieni maeth sy'n ofalwyr

| Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol |
|---|
| Penderfynu ar unrhyw bolisi neu ddogfennau polisi a'u diwygio mewn perthynas â'r canlynol:<br>• Datblygu sefydliadol<br>• Trawsnewid busnes<br>• Cynllunio gwelliant<br>• Unrhyw bolisïau sy'n ymwneud â chydraddoldeb nad ydynt wedi'u neilltuo i'r Cabinet neu'r Cyngor<br>• Cyfathrebu o fewn y sefydliad<br>• Canolfan wyneb yn wyneb y Cyngor a'r Ganolfan Gyswllt<br>• Risg gwybodaeth a llywodraethu gwybodaeth<br>• Deall cwsmeriaid<br>• Rheoli gwybodaeth<br>• Gwella mynediad at wasanaethau<br>• Strategaethau TGCh<br>• Arloesi digidol yn y Cyngor<br>• Strategaethau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd<br>• Unrhyw bolisïau Adnoddau Dynol corfforaethol, gan gynnwys Iechyd a Diogelwch<br>• Ymgymryd ag unrhyw weithgaredd cydfargeinio a phennu a gweithredu unrhyw ddulliau ymgynghori neu drafod<br>• Gwasanaethau Cyfreithiol<br>• Gwasanaethau Cofrestru<br>• Cofrestru Etholiadol |

13. **Appendix 2 Appointments to Outside Bodies**

**ATODIAD 2 – CYRFF ALLANOL**

| | |
|---|---|
| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan** | Y Cynghorydd Mark Spencer<br>Y Cynghorydd Kate Thomas |
| **Cyngor Celfyddydau Cymru: Rhanbarth De-ddwyrain Cymru** | Y Cynghorydd Debbie Harvey |
| **Cyngor Llyfrau Cymru** | Y Cynghorydd Pat Drewett |
| **Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** | Y Cynghorydd Phil Hourahine |
| **Bwrdd Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** | Y Cynghorydd Laura Lacey |
| **Y Ffowndri Lled-ddargludyddion Cyfansawdd** | Y Cynghorydd Deb Davies |

| | |
|---|---|
| **Panel Ymddiriedolaethau Elusennol** | Y Cynghorydd James Clarke<br>Y Cynghorydd Kate Thomas<br>Y Cynghorydd Mark Spencer<br>Y Cynghorydd Paul Cockeram<br>Y Cynghorydd William Routley |
| **Cyngor Iechyd Cymuned, Pwyllgor Casnewydd** | Y Cynghorydd William Routley<br>Y Cynghorydd Kate Thomas<br>Elaine Bryant |
| **Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru** | Y Cynghorydd Jane Mudd |
| **Undeb Credyd** | Y Cynghorydd Stephen Marshall |
| **Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Bwrdd y Cwmni** | Y Cynghorydd Deb Davies<br>Y Cynghorydd Paul Bright |
| **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Gwasanaeth Cyflawni Addysg** | Y Cynghorydd Steve Cocks<br>Y Cynghorydd John Harris |
| **Grŵp Comisiynu'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg** | Y Cynghorydd Allan Screen<br>Y Cynghorydd Alex Pimm |
| **Panel Craffu'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg** | Y Cynghorydd Dave Mayer<br>Y Cynghorydd Phil Hourahine |
| **Canolfan Gofal Cymdeithasol Dwyrain Casnewydd** | Y Cynghorydd Deb Harvey |
| **Y Comisiwn Tegwch** | Y Cynghorydd Kate Thomas<br>Y Cynghorydd Jason Jordan |
| **Partneriaeth Trin Gwastraff Bwyd** | Y Cynghorydd Laura Lacey<br>Y Cynghorydd Yvonne Forsey |
| **Panel Maethu** | Y Cynghorydd John |

| | |
|---|---|
| | Reynolds |
| **Cyd-bwyllgor Prosiect Eiddilwch** | Y Cynghorydd Matthew Pimm |
| **Cyfeillion Pont Gludo Casnewydd** | Y Cynghorydd Deb Harvey |
| **Cyd-bwyllgor Archifau Gwent Fwyaf** | Y Cynghorydd David Mayer<br>Y Cynghorydd Pat Drewett |
| **Cyd-bwyllgor Amlosgfa Gwent Fwyaf** | Y Cynghorydd Laura Lacey<br>Y Cynghorydd Yvonne Forsey |
| **Growing Space** | Y Cynghorydd Trevor Watkins |
| **Pwyllgor Lleol Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent** | Y Cynghorydd Phil Hourahine |
| **Gwarchodfa Natur Gwlypdiroedd Gwastadeddau Gwent** | Y Cynghorydd Yvonne Forsey |
| **Panel Heddlu a Throseddu Gwent** | Y Cynghorydd Farzina Hussain |
| | Y Cynghorydd Deb Jenkins<br>Y Cynghorydd Mark Spencer |
| **Cymdeithas Bowlio Dan Do** | Y Cynghorydd Miqdad Al Nuaimi |
| **Ymddiriedolaeth Casgliad Jerome Gatehouse** | Y Cynghorydd Mark Spencer |
| **Cyngor Cyswllt Cymru** | Y Cynghorydd Jane Mudd<br>Y Cynghorydd Deb Davies |
| **Bwrdd Lefelau Byw** | Y Cynghorydd Laura Lacey<br>Y Cynghorydd Yvonne Forsey |
| **Lles y Llynges Fasnachol** | Y Cynghorydd Matthew Pimm<br>Allen Speight |

| | |
|---|---|
| **Grŵp Cyd-lywio Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog** | Y Cynghorydd David Mayer<br>Y Cynghorydd Bev Perkins<br>Y Cynghorydd Phil Hourahine |
| **Comisiwn Harbwr Casnewydd** | Ray Truman<br>Y Cynghorydd Trevor Watkins |
| **Bwrdd Casnewydd Fyw** | Y Cynghorydd Yvonne Forsey<br>Y Cynghorydd Jason Hughes |
| **Ardal Gwella Busnes Newport Now** | Y Cynghorydd Jane Mudd |
| **Bwrdd Trafnidiaeth Casnewydd** | Y Cynghorydd Debbie Harvey<br>Y Cynghorydd James Clarke<br>Y Cynghorydd Gavin Horton<br>Y Cynghorydd Mark Spencer |
| **Cymorth i Ferched Casnewydd** | Y Cynghorydd Deb Jenkins |
| **Bwrdd Cyd-bartneriaeth Norse** | Y Cynghorydd Miqdad Al Nuaimi |
| **Rheoliadau Parcio a Thraffig y Tu Allan i Lundain (PATROL)** | Y Cynghorydd Laura Lacey |
| **Ymddiriedolaeth Canolfan Mileniwm Pilgwenlli** | Y Cynghorydd Saeed Adan |
| **Cyd-bwyllgor Prosiect Gwyrdd** | Y Cynghorydd Yvonne Forsey<br>Y Cynghorydd Laura Lacey |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** | Y Cynghorydd Jane Mudd<br>Beverly Owen |
| **Ymddiriedolaeth Raven House** | Y Cynghorydd Bev Davies |
| **Cymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid** | Y Cynghorydd Matthew Evans |

| | |
|---|---|
| **Elusendai Roger Williams a'r Frenhines Victoria** | Y Cynghorydd Miqdad Al-Nuaimi |
| **Bwrdd Strategol y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau** | Y Cynghorydd Dimitri Batrouni |
| **Awdurdod Tân ac Achub De Cymru** | Y Cynghorydd Trevor Watkins<br>Y Cynghorydd Miqdad Al Nuaimi |
| **Cyfrifoldeb Arbennig – Eiriolwyr a Benodwyd gan y Cyngor:** | |
| Eiriolwr Iechyd Meddwl | Y Cynghorydd Kate Thomas |
| Eiriolwr y Gymraeg | Y Cynghorydd John Harris |
| Eiriolwr ar gyfer Pobl Anabl ac Agored i Niwed | Y Cynghorydd Deb Jenkins |
| Eiriolwr Bioamrywiaeth | Y Cynghorydd Emma Corten |
| Eiriolwr y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr | Y Cynghorydd Mark Spencer |
| Eiriolwr LHDTC+ | Y Cynghorydd Laura Lacey |
| Eiriolwr Tlodi | Y Cynghorydd Phil Hourahine |
| Eiriolwr ar gyfer Pobl Hŷn | Y Cynghorydd Trevor Watkins |
| Eiriolwr Teithio Llesol | Y Cynghorydd Dave Mayer |
| Eiriolwr BAME | Y Cynghorydd Farzina Hussain |
| Eiriolwr ar gyfer Gofalwyr | Y Cynghorydd Paul Cockeram |
| **Grŵp Gweithredu Lleol Dyffryn Wysg** | Y Cynghorydd Yvonne Forsey<br>Y Cynghorydd Jason Hughes<br>Y Cynghorydd Mark Spencer<br>Y Cynghorydd Laura Lacey<br>Y Cynghorydd Steve Cocks |
| **Wastesavers Limited** | Y Cynghorydd Alex Pimm<br>Y Cynghorydd Saeed Adan<br>Y Cynghorydd Malcolm Linton<br>Y Cynghorydd Bev |

| | |
|---|---|
| | Davies |
| **Cyngor Llyfrau Cymru** | Y Cynghorydd Pat Drewett |
| **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** | Y Cynghorydd Jane Mudd<br>Y Cynghorydd Mark Spencer<br>Y Cynghorydd Deb Davies<br>Y Cynghorydd James Clarke |
| **Cyd-drefniadau Consortiwm Prynu Cymru** | Y Cynghorydd Jane Mudd |
| **Ymddiriedolaeth Williams** | Y Cynghorydd Steven Cocks<br>Y Cynghorydd Jason Hughes<br>Y Cynghorydd Claire Baker-Westhead<br>Gail Giles |
| **Pwyllgor Cydlynu CLILC** | Y Cynghorydd Jane Mudd |

14. **Gohiriad**

Cadarnhaodd yr aelod llywyddol fod hyn yn dod â busnes ffurfiol y Cyngor yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol i ben, gan ddod â rhan gyntaf y cyfarfod i ben am 4.45pm. Gwnaeth y cyfarfod ailymgynnull ar ôl gohiriad byr ar gyfer seremoni urddo'r maer.

15. **Urddo'r Maer 2022/23**

The meeting terminated at Time Not Specified